Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Trystan Phillips

Ysgol Penparc
Penparc
Cardigan
SA43 1SG

20/05/2025

Annwyl Trystan Phillips

**Ymweliad Interim:** Ebrill 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Penparc yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â dau argymhelliad o'u harolygiad craidd ym mis Mawrth 2023. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny.

Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i:

- ymweld â dosbarthiadau, gan gynnwys ymweliadau ar y cyd ag arweinwyr
- siarad â disgyblion
- cyfarfod gydag athrawon ac arweinwyr
- craffu ar waith disgyblion, gan gynnwys ar y cyd ag arweinwyr
- craffu ar ddogfennaeth

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o gynnydd yr ysgol tuag at gyflawni gofynion yr argymhellion, ac maent yn cydnabod bod ychydig o agweddau y gallent eu gwella ymhellach.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

Ffocws yr ymweliad

## Sicrhau bod adborth gan staff yn darparu'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn effeithiol

- Yn nosbarthiadau'r disgyblion ieuengaf, mae staff yn cynnig adborth llafar defnyddiol a chefnogaeth bwrpasol i ddisgyblion. Maent yn holi'r disgyblion yn dda, ac mae'r trafodaethau buddiol sy'n deillio o hynny yn cefnogi disgyblion yn effeithiol i ddatblygu eu medrau yn gyson ar draws y meysydd dysgu.
- Arfer gyson gan staff ar draws yr holl ddosbarthiadau yw'r defnydd synhwyrol o stampiau lliwgar fel dull i godi statws yr adborth llafar buddiol maent yn ei gynnig i ddisgyblion. Mae'r strategaeth bwrpasol hon yn cefnogi llawer o ddisgyblion yn fwriadus i adnabod ac ymateb yn amserol i gamgymeriadau yn eu gwaith.
- Mae arweinwyr wedi mabwysiadu cod marcio cytûn, ac ar y cyfan, caiff ei ddefnyddio'n briodol gan athrawon. Er hyn, mae arweinwyr yn cydnabod nad yw'r arfer hon yn cael ei gweithredu'n ddigon cyson ar draws yr holl ddosbarthiadau ar hyn o bryd.
- Trwy ddefnydd pwrpasol o ddulliau ymateb i waith, fel 'Melyn Meddwl' a 'Glas Gwych', darperir cyfleoedd defnyddiol i lawer o ddisgyblion fireinio a gwella ansawdd eu gwaith yn dilyn adborth buddiol gan athrawon. Cânt eu hannog i osod eu haddasiadau ar bapur ychwanegol ar ben eu hymdrechion cyntaf i amlygu'r gwelliannau a wnaed. Yn gyffredinol, mae ansawdd yr adborth a ddarperir gan athrawon yn anghyson i allu cefnogi disgyblion i wybod beth i'w wneud i wneud cynnydd yn eu dysgu, a sut.
- Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd perchnogaeth dros eu dysgu, er enghraifft drwy gymryd rhan weithredol wrth wirio eu gwaith eu hunain. At ei gilydd, mae eu medrau i werthuso gwaith ei gilydd yn datblygu'n dda.
- Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr i staff sy'n hwyluso trafodaethau a chyfleoedd i rannu syniadau ag ysgolion cyfagos. Mae hyn yn meithrin hyder staff ac yn eu galluogi i arbrofi'n bwrpasol ag ystod addas o ddulliau i ddarparu adborth defnyddiol i ddisgyblion.

## Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am beth i ddysgu a sut i gyflwyno eu gwaith

- Mae arweinwyr yn annog staff i ymchwilio a gwella eu harferion trwy ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol pwrpasol iddynt i fynychu hyfforddiant. Trwy hyn, mae staff yn datblygu dealltwriaeth gadarn o ddulliau effeithiol ar gyfer datblygu medrau annibyniaeth disgyblion.

- Ar y cyfan, mae athrawon yn cynllunio profiadau sy’n galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i gymhwyso eu medrau’n annibynnol trwy weithgareddau sy'n adeiladu ar eu dysgu blaenorol yn llwyddiannus. Erbyn brig yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adeiladu ar eu medrau annibynnol yn briodol. Mae athrawon yn dechrau cynllunio cyfleoedd da i ddisgyblion gyflawni gweithgareddau ‘Her a Cher amdani’ sy’n eu hannog i gyflawni gwaith yn lled annibynnol, er enghraifft.
- Mae athrawon y disgyblion ieuengaf yn gweithredu’n briodol ar arweiniad a hyfforddiant allanol, ac yn dangos parodrwydd i arbrofi gyda dulliau gweithredu newydd. Maent yn magu hyder trwy ddarparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion gael mynediad at adnoddau defnyddiol, heb gymorth, ac i wneud dewisiadau sy'n cefnogi eu datblygiad yn bwrpasol. Er hyn, nid yw’r arfer hon yn gyson ar draws holl ddosbarthiadau'r dysgu sylfaen sy’n golygu nad yw disgyblion bob amser yn gwneud cynnydd cystal ag y gallent yn eu medrau annibynnol.
- Yn yr arferion gorau, mae athrawon yn cefnogi disgyblion i fod yn uchelgeisiol ac i fwynhau herio eu hunain. Er enghraifft, trwy ddarparu tasgau mwy agored sy'n eu hannog i feddwl drostynt eu hunain ac i gydweithio'n bwrpasol â'u cyfoedion. Mewn lleiafrif o achosion, mae tueddiad i staff or-arwain y dysgu sy’n cyfyngu ar allu’r disgyblion i wneud dewisiadau yn gynyddol annibynnol ynghylch eu dysgu.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6672324

Yn gywir

L Miles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol